Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

6 Mai 2008

Angen i ysgolion ddilyn eu pregeth eu hunain o safbwynt bwyd a ffitrwydd

Mae ysgolion wedi gwella pa mor dda y maent yn cefnogi pobl ifanc i fod yn iach ac yn weithgar, ond erys materion i fynd i'r afael â nhw o hyd, dywed adroddiad a gyhoeddir heddiw gan arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, Estyn.

"Mae ysgolion yn bartneriaid pwysig wrth hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i bobl ifanc yng Nghymru. Mae adroddiad Estyn yn amlygu arfer dda y gall ysgolion ei defnyddio fel rhan o'u datblygiad strategol i fynd i'r afael â byw'n iach fel bod pobl ifanc yn cael eu hannog i fabwysiadu ffordd iach o fyw yn ifanc" meddai Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Mae bron pob ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am fyw'n iach, ac o ganlyniad, mae gan ddisgyblion yn gyffredinol wybodaeth a dealltwriaeth sicr o fyw'n iach. Fodd bynnag, nid yw profiad disgyblion yn yr ysgol bob amser yn cyd-fynd â'r hyn y cânt eu haddysgu am fyw'n iach.

Mae penaethiaid yn ymroddedig i iechyd a lles pobl ifanc ac mae arolygiadau diweddar yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud yn dda wrth sicrhau datblygiad iachus, diogelwch a lles disgyblion. Er enghraifft, mae ysgolion wedi gostwng yn sylweddol nifer y cynhyrchion sydd ar gael sy'n cynnwys symiau mawr o siwgr, braster neu halen ac mae bron pob un ohonynt yn cynnig dewisiadau bwyd a diod iach. Fodd bynnag, caniateir i ddisgyblion mewn gormod o ysgolion ddewis o fyrbrydau fel bisgedi, cacennau a thoesenni. Er mai dim ond unwaith yr wythnos y

mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn cynnig sglodion, mae sglodion ar y fwydlen bedwar diwrnod yr wythnos mewn llawer o ysgolion uwchradd.

Darganfu arolygwyr fod disgyblion yn fwy tebygol o fwyta mewn neuadd fwyd ysgol os yw'r bwyd yn cael ei baratoi'n ffres, os nad yw'r ciwiau yn rhy hir ac os yw'r profiad cyffredinol yn ddeniadol.

Mewn dros 60% o'r ysgol yn yr arolwg, nid oes digon o gyfleusterau i addysgu disgyblion sut i goginio neu i baratoi bwyd drostynt eu hunain. Mae Estyn yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i ariannu gwelliannau i gyfleusterau mewn ysgolion i helpu i addysgu byw'n iach, gan gynnwys gwelliannau i'r cyfleusterau arlwyo a bwyta.

Ymwelodd arolygwyr ag un ysgol uwchradd fawr sydd wedi gweithio gyda chwmni arlwyo preifat i greu 'neuadd fwyd' o ansawdd uchel, gan ddarparu bwyd lleol yn bennaf, gyda gostyngiad yn y cynnwys siwgr, halen a braster. Mae system heb arian yn golygu bod yr holl ddisgyblion yn defnyddio cerdyn tâl personol. O ganlyniad, bu cynnydd o 51% i fyny i 97% yn yr holl ddisgyblion cymwys sy'n ymgymryd â'u pryd ysgol am ddim. Mae Estyn yn argymell y dylai pob ysgol gynllunio i gynyddu'r nifer sy'n cael prydau ysgol am ddim, sydd yn gyffredinol yn fwy maethlon na'r dewisiadau oddi ar y safle y gallai disgyblion eu dewis.

Lle nad yw disgyblion yn fodlon â chyflwr toiledau ysgol, maent yn fwy tebygol o beidio ag yfed digon o ddŵr fel nad oes rhaid iddynt eu defnyddio. Yn yr ysgolion a gafodd eu cynnwys yn yr arolwg ar gyfer yr adroddiad hwn, mae hanner y toiledau mewn ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw, a chwarter y toiledau mewn ysgolion cynradd, yn anfoddhaol. Mae adroddiad Estyn yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i gyflwyno safonau gofynnol ar gyfer toiledau ysgol a chyfleusterau newid.

Mae rhaglenni ffitrwydd mewn ysgolion, fel Campau'r Ddraig[1] a'r rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (AGChY)[2] wedi cael effaith gadarnhaol ar ffitrwydd pobl

[1] Caiff Campau'r Ddraig ei redeg gan Gyngor Chwaraeon Cymru, ei ariannu gan y Loteri Genedlaethol a'i anelu at blant 7-11 mlwydd oed.

ifanc. Fodd bynnag, darganfu arolygwyr Estyn nad yw chwech o bob deg o'r ysgolion yn yr arolwg yn darparu'r isafswm argymelledig[3] o ddwy awr yr wythnos o addysg gorfforol. Mae llawer o ysgolion yn ei chael yn anodd darparu ystod eang o weithgareddau y gall yr holl ddisgyblion eu mwynhau. Mae ysgolion sy'n cynnig gweithgareddau traddodiadol fel dawns gyfoes, ioga, crefftau ymladd, codi hwyl a garddio yn arbennig o effeithiol wrth annog disgyblion i gymryd rhan mewn addysg gorfforol.

Dim ond ychydig iawn o ysgolion sydd â systemau effeithiol ar gyfer monitro ac arfarnu effaith eu gwaith byw'n iach, er eu bod yn cynnwys rhieni'n fwy wrth arfarnu ei effaith. Mae llawer o ysgolion wedi gofyn i rieni am eu barn am effeithiolrwydd gwaith yr ysgol ar fyw'n iach, ond ychydig o ysgolion yn unig sydd wedi ailadrodd arolygon fel eu bod yn gallu dadansoddi tueddiadau gydag amser. Mae Estyn yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i ddarparu arweiniad i ysgolion ar sut i arfarnu effeithiolrwydd eu gwaith wrth wella iechyd disgyblion.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Bwyd a ffitrwydd mewn ysgolion: Adroddiad ar ba mor dda y mae ysgolion yng Nghymru yn cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn iach ac yn weithgar' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:

    - adroddiadau o arolygiadau ysgolion cynradd ac uwchradd rhwng Medi 2005 a Rhagfyr 2007;
    - ymweliadau arolwg â 12 o ysgolion cynradd ac 8 ysgol uwchradd yn nhymor yr hydref 2007, a oedd yn cynnwys gwrando ar ddysgwyr ynghyd â thrafodaethau â staff; a
    - thrafodaethau â 15 o swyddogion gwella awdurdodau lleol a chydlynwyr Ysgolion Iach.

- Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir neu sy'n cael eu hariannu gan awdurdodau lleol, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion

[2] Ariennir AGChY gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i nod yw gwella pob agwedd ar AG a chwaraeon ysgol.
[3] Fel y mae Strategaeth Dringo'n Uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei argymell.

arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, y system cyfiawnder ieuenctid, awdurdodau addysg lleol (AALlau), addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, cwmnïau Gyrfa Cymru ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni'r Ganolfan Byd Gwaith.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Gina Carrington
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464